**Eitem Agenda Rhif 2**

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, ddydd Mercher, 24 Chwefror 2010, am 10.00 a.m.

## PRESENNOL

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Cynghorwyr M.M. Jones (Cadeirydd), J.A. Davies, C.M. Evans, G.C. Evans, G.A. Jones a J.G. Yorke

**Yn cynrychioli enwadau crefyddol**

H. Ellis, R. Elms, S. Harris, Parch. B.H. Jones ac E. Wright

**Aelodau Cyfetholedig**

M.B. Lloyd

## HEFYD YN BRESENNOL

Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Gorfforol (PL) a Chlerc CYSAG (KEJ)

## YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd C. Hughes ynghyd ag M. Bradshaw, G. Craigen, M. Hatch a M. Phillips

## MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrdod tawel.

## CROESO

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Hefyd estynnodd groeso arbennig i Mr. Philip Lord, Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol, a oedd yn bresennol yn ei gyfarfod CYSAG cyntaf. Diolchodd Mr. Lord i'r aelodau am eu croeso cynnes ac amlinellodd y cymwysterau a'r profiad roedd yn meddu arnynt ar gyfer ei rôl newydd, wedi'i hyfforddi fel gweinidog eglwys ac athro Addysg Grefyddol cyn ymgymryd â swydd Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol ym mis Ionawr 2010. Cadarnhaodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda CYSAG. Ar wahoddiad y Cadeirydd manteisiodd pawb a oedd yn bresennol ar y cyfle i gyflwyno eu hunain a'u cysylltiad gyda CYSAG.

## 1 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried gan y pwyllgor.

## 2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2009 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Nododd y Cadeirydd fod y talfyriad Saesneg 'SACRE' wedi'i ddefnyddio yn y cofnodion Cymraeg yn hytrach na 'CYSAG'.

Gan nad oedd materion yn codi:-

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2009 fel cofnodion cywir.*

## 3 CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2009

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol dablau (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn nodi manylion am ganlyniadau arholiadau Astudiaethau Crefyddol TGAU a Safon Uwch ar gyfer y flwyddyn 2009 o'u cymharu gyda 2008 ynghyd â dadansoddiad o'r gwahaniaethau a'r tueddiadau i'r aelodau eu hadolygu.

Aeth yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol ymlaen i arwain yr aelodau drwy'r canlyniadau yn fanwl, a darparodd adroddiad llafar ar y cymariaethau rhwng canlyniadau arholiadau 2009 a 2008. Cyfeiriodd yn benodol at y pwyntiau isod:-

**Canlyniadau TGAU – Astudiaethau Crefyddol 2009 –**

- Canlyniadau TGAU pob ymgeisydd – Astudiaethau Crefyddol 2009 – roedd 95 o ymgeiswyr ychwanegol o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol, gyda 81.7% ohonynt yn cyflawni A* - C, sef gwelliant cyffredinol o 4.6% ar y lefel honno sy'n 9.8% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

- Canlyniadau TGAU bechgyn – Astudiaethau Crefyddol 2009 – roedd 44 o ymgeiswyr ychwanegol o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol, gyda 79.2% ohonynt yn cyflawni A* - C, sef gwelliant cyffredinol o 2.1% sy'n 13% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

- Canlyniadau TGAU merched – Astudiaethau Crefyddol 2009 – roedd 51 o ymgeiswyr ychwanegol o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol, gyda 83.3% yn cyflawni A* - C, sef gwelliant o 6.3% sy'n 7.6% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

**Addysg Grefyddol (Cwrs Byr) 2009 –**

- Addysg Grefyddol pob ymgeisydd (Cwrs Byr) 2009 – yn gyffredinol roedd 106 o ymgeiswyr ychwanegol eleni o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol, gyda 52.9% yn cyflawni A* - C, yn cynrychioli cynnydd o 9.6% yn 2009 ond yn parhau 6.3% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol

- Addysg Grefyddol Bechgyn (Cwrs Byr) 2009 – roedd 65 o ymgeiswyr ychwanegol o'i gymharu gyda'r llynedd gyda chynnydd yn y canran a lwyddodd i gael graddau A* - C wedi cynyddu o 29.4% i 44.8% yn 2009, a oedd yn parhau i fod yn 7.7% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol

- Addysg Grefyddol Merched (Cwrs Byr) 2009 – roedd 41 o ymgeiswyr ychwanegol o'i gymharu gyda'r llynedd gyda chynnydd yn y canran a lwyddodd i gael graddau A* - C wedi cynyddu o 52.5% i 59.2%, a oedd yn parhau i fod yn 6.2% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol

Pwysleisiodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol fod 106 yn fwy o ymgeiswyr wedi dilyn y Cwrs Byr Addysg Grefyddol, ond bod y cyfanswm yn cynnwys 66 o ddisgyblion Blwyddyn 9 ac 13 o ddisgyblion Blwyddyn 10. Gan nad oedd yn bosibl tracio faint o ddisgyblion Blwyddyn 9 fyddai'n cymryd y cwrs eilwaith ym Mlwyddyn 10 gallai'r data gyfeirio at yr un disgybl ddwywaith. Daeth i'r amlwg bod Ysgolion Uwchradd y Rhyl a Phrestatyn yn cyflwyno eu disgyblion is eu gallu fel ymgeiswyr y cwrs byr ac roedd posibilrwydd bod ysgolion eraill yn dilyn y drefn hon. Byddai'n ofynnol gwneud rhagor o waith ymchwil i ganfod faint o ysgolion (os o gwbl) sy'n parhau i wneud hynny. Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch y rhesymeg y tu ôl i'r arfer, esboniodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol fod Addysg Grefyddol yn statudol drwy gydol Cyfnod Allweddol 4 a gallai rhai ysgolion fod yn defnyddio'r cwrs byr fel y ddarpariaeth statudol gyda'r disgyblion is eu gallu yn sefyll y cwrs byr, a adlewyrchir yn y canlyniadau gwael. Teimlai'r Cynghorydd G.C. Evans y dylai system yr awdurdod o dracio disgyblion alluogi cael data ynghylch disgyblion unigol. Dywedodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol y darperir data am ddisgyblion 15 oed ond y gellid cael peth dryswch ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Gofynnwyd am y data sy'n ofynnol gan yr ysgolion ond nid oes unrhyw ymrwymiad statudol arnynt i'w ddarparu. Er mwyn rhoi canlyniadau'r cwrs byr yn eu cyd-destun, dywedodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol mai dim ond 7.7% o'r merched oedd wedi ennill gradd A* - C yn Ysgol Uwchradd Prestatyn o'i gymharu gyda 22.2% y flwyddyn flaenorol, a 10.3% o'r bechgyn wedi llwyddo i ennill graddau A* - C, lle nad oedd unrhyw ymgeiswyr gwrywaidd y flwyddyn flaenorol. Gan fod y disgyblion uwch eu gallu wedi ymgeisio yn yr arholiad TGAU roedd canlyniadau'r ysgol o ran hynny wedi bod yn rhagorol. Fodd bynnag, drwy roi'r disgyblion is eu gallu i sefyll y cwrs byr roedd y canlyniadau wedi bod yn wael ac roedd yn adlewyrchiad gwael ar ganlyniadau'r ysgol yn gyffredinol. Wrth dynnu canlyniadau Ysgol Uwchradd Prestatyn o'r cyfanswm cyffredinol o raddau A* - C yn y cwrs byr (a oedd yn arwyddocaol is na thargedau cyfartalog yr awdurdod addysg lleol a'r targedau cenedlaethol) byddai canlyniad Sir Ddinbych 7.1% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn hytrach na 6.3% yn is na'r cyfartaledd.

Dywedodd yr Aelod Cyfetholedig M.B. Lloyd nad oedd Ysgol Uwchradd y Rhyl wedi cyflwyno disgyblion fel ymgeiswyr yn yr arholiadau hyn yn y gorffennol ac y dylid canmol eu hymdrechion. Teimlai bod y cwrs byr yn creu diddordeb yn y pwnc Astudiaethau Crefyddol.

**Safon Uwch – Astudiaethau Crefyddol 2009 –**

- Safon Uwch pob ymgeisydd – Astudiaethau Crefyddol 2009 – roedd 3 ymgeisydd ychwanegol gydag 86.4% yn cyflawni gradd A – C, a oedd yn

gynnydd o 8.6% ar y flwyddyn flaenorol a 6.7% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

- Safon Uwch bechgyn – Astudiaethau Crefyddol 2009 – roedd 11 o ymgeiswyr ychwanegol gydag 87% yn cyflawni gradd A – C, a oedd yn gynnydd o 28.7% ar y flwyddyn flaenorol a 10.2% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

- Safon Uwch merched – Astudiaethau Crefyddol 2007 – roedd 8 yn llai o ymgeiswyr gydag 86% yn cyflawni gradd A – C, a oedd yn gynnydd o 3.6% ar y flwyddyn flaenorol a 15.1% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yn ystod y trafodaethau a ddilynodd canmolodd y Cynghorydd C.M. Evans ganlyniadau rhagorol Ysgol Santes Ffraid ac Ysgol Brynhyfryd. Cyfeiriodd y Cynghorydd G.A. Jones at y coleg newydd 'Chweched y Rhyl' a holodd a fyddai canlyniadau arholiadau Addysg Grefyddol y sefydliad hwn yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol i'r CYSAG er mwyn monitro a gwerthuso. Nododd yr Aelodau ddatblygiad y ddarpariaeth chweched dosbarth newydd yn y Rhyl a phwysleiswyd yr angen i ganfod pa gyrsiau a oedd yn cael eu cynnig er mwyn sicrhau y byddai'r canlyniadau'n cael eu monitro yn briodol. Cytunodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol i ystyried y mater ac adrodd yn ôl i CYSAG.

**Crynodeb o'r Canlyniadau Arholiadau 2009 –**

Arweiniodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol yr aelodau drwy'r crynodeb o'r canlyniadau arholiad a oedd yn tynnu sylw at y canlyniadau siomedig yn Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones. Atgoffodd aelodau'r CYSAG eu bod wedi trafod canlyniadau gwael yr ysgol hon yn flaenorol a'r problemau yn gysylltiedig â hyn. Holodd y Cynghorydd J. Yorke am absenoldeb ffigurau Safon Uwch ar gyfer Ysgol Glan Clwyd. Esboniodd y Parchedig B.H. Jones fod athrawes Addysg Grefyddol yr ysgol wedi bod ar gyfnod absenoldeb mamolaeth y flwyddyn flaenorol ac nid oedd unrhyw un ar gael i addysgu i lefel Safon Uwch. Hefyd tynnodd sylw at y niferoedd bychan a oedd yn dewis parhau gydag Addysg Grefyddol ar y lefel yna. Bu'r aelodau'n trafod niferoedd y disgyblion sy'n dymuno parhau gydag Addysg Grefyddol ar lefel Safon Uwch a soniodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol am y posibilrwydd o drefniadau consortiwm gydag ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i rannu'r ddarpariaeth. Tra'n cydnabod y gallai adnoddau ac amserlennu fod yn broblem, o gofio'r newidiadau i ddarpariaeth addysg ôl 16 yn y sir, roedd yr aelodau yn dymuno annog sefydlu consortiwm er mwyn darparu mwy o gyfleoedd a dewis yn y ddarpariaeth Addysg Grefyddol. Awgrymwyd y dylai'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol gyfleu siom CYSAG ynghylch y niferoedd bychan sy'n dewis Astudiaethau Crefyddol mewn ysgolion penodol a chrybwyll y posibilrwydd o drefniadau consortiwm gydag ysgolion uwchradd yn gweithio gyda'i gilydd fel ffordd ymlaen. Dywedodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol y byddai'n cael cyfarfod gyda'r Pennaeth Cynhwysiant ynghylch trefniadau monitro mewn ysgolion ac awgrymodd y byddai hynny'n gyfle delfrydol i wyntyllu'r mater.

Roedd yr Aelod Cyfetholedig M. B. Lloyd o blaid parhau gyda'r arfer blaenorol o anfon llythyrau llongyfarch i'r ysgolion hynny yr oedd eu canlyniadau wedi gwella ac

a oedd uwchben y cyfartaledd cenedlaethol a chynnig cymorth i ysgolion sy'n tanberfformio.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn y data ystadegol;*

*(b) y dylai'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol ymchwilio ymhellach i'r arfer bod ysgolion yn cyflwyno disgyblion is eu gallu fel ymgeiswyr ar y Cwrs Byr ac adolygu hyn;*

*(c) bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol yn canfod pa gyrsiau Addysg Grefyddol sy'n cael eu cynnig yn dilyn datblygu'r ddarpariaeth chweched dosbarth newydd yn y Rhyl er mwyn sicrhau y byddai'r canlyniadau'n cael eu monitro'n briodol gan CYSAG yn y dyfodol;*

*(ch) gofyn i'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol gyfleu siom CYSAG i'r awdurdod addysg lleol ynghylch y niferoedd bychan sy'n dewis Astudiaethau Crefyddol mewn ysgolion penodol a sôn am y posibilrwydd o drefniadau consortiwm gydag ysgolion uwchradd yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn darparu mwy o gyfleoedd a dewis wrth ddarparu Addysg Grefyddol;*

*(d) bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol yn trefnu cyfarfodydd gyda'r ysgolion hynny a gafodd ganlyniadau arholiad siomedig i ganfod pa strategaethau sy'n cael eu mabwysiadu i ymdrin â thanberfformiad ac i gynnig ei wasanaethau yn cynorthwyo i sicrhau gwella;*

*(dd) anfon llythyrau llongyfarch i'r ysgolion hynny yr oedd eu canlyniadau wedi gwella o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol ac a oedd uwchben y cyfartaledd cenedlaethol.*

## 4 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGIADAU YSGOLION

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn dadansoddi canlyniadau arolygiadau diweddar tair ysgol rhwng Mehefin a Hydref 2009 o ran darpariaeth Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol, ac Addysg Grefyddol lle bo hynny wedi'i gynnwys fel rhan o'r arolwg. Cynhaliwyd arolygiadau yn Ysgol Llanbedr, Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl ac Ysgol Bodfari ac roedd yr adroddiad yn cynnwys hanes cryno am bob ysgol.

Darparodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol grynodeb cryno o'r canfyddiadau ymhob ysgol i'r aelodau, gan esbonio ac egluro materion penodol mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau. Roedd yn bleser nodi'r 72 o sylwadau cadarnhaol ar gyfer Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol rhwng y tair ysgol a bod nifer o nodweddion rhagorol wedi'u nodi. Derbyniwyd dwsin o sylwadau negyddol, y byddai'r ysgolion yn ymdrin â nhw. Wrth ystyried y sylwadau negyddol, holodd y Cynghorydd C.M. Evans am yr angen i addysgu disgyblion cynradd mewn materion yn ymwneud ag Entreupreneuriaeth a Mentergarwch ac Addysg gysylltiedig a gwaith, lle'r oedd dwy ysgol wedi dangos gwendidau. Esboniodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol yr ethos y tu ôl i

ddarpariaeth o'r fath yn deillio o'r cwricwlwm wedi'i seilio ar sgiliau. Rhoddodd enghraifft o blant ifanc yn y Cyfnod Sylfaen yn gwisgo fel swyddogion yr heddlu a nyrsus ac ati fel modd o ddysgu am barch ac awdurdod drwy chwarae. Teimlai bod sgiliau o'r fath yn cael eu haddysgu mewn ysgolion eisoes ond nid o dan y label penodol yna. Cytunodd Mrs. E. Wright bod sgiliau o'r fath wedi'u haddysgu mewn ysgolion erioed ond nad oedd yr agweddau penodol entrepreneuriaeth ac addysg gysylltiedig â gwaith wedi'u nodi a'u labelu ar wahân. Serch hynny, teimlai nad oedd y materion ehangach yn ymwneud ag addysg mewn ysgolion cynradd ac roedd hi wedi'i siomi i nodi peth beirniadaeth ynghylch hynny. Cytunodd y Cynghorydd J. Yorke gyda'r farn honno a mynegodd bryderon am y pwysau ar athrawon yn ceisio datblygu sgiliau entrepreneuraidd a sgiliau'n gysylltiedig â gwaith gyda phlant mor ifanc, gyda llawer ohono'n cael ei ystyried yn ddiangenrhaid. Anogodd y Cadeirydd yr aelodau i ddarllen yr adroddiadau arolwg llawn ar gyfer yr ysgolion, yr oedd hi wedi'u cael yn ddiddorol iawn ac a oedd yn rhoi gwahanol elfennau'r arolwg yn eu cyd-destun.

O ran Addysg Grefyddol roedd y tair ysgol wedi derbyn 26 o sylwadau cadarnhaol rhyngddynt, a dim ond 4 sylw negyddol.

Croesawodd yr aelodau y nifer uchel o sylwadau cadarnhaol ar draws yr ysgolion a theimlai Mrs. S. Harris y dylid canmol Ysgol Bodfari yn enwedig am eu cyflawniadau o gofio ei bod yn ysgol mor fach. Cynigiodd y Cadeirydd y dylid anfon llythyrau yn y dull arferol yn llongyfarch yr ysgolion am eu nodweddion cadarnhaol.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) derbyn a nodi'r adroddiad;*

*(b) anfon llythyr i'r ysgolion a gafodd arolwg yn eu llongyfarch am y nodweddion da a nodwyd a chynnig gwasanaethau'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a Swyddogion Gwella Ysgolion yng nghyswllt unrhyw feysydd i'w datblygu neu faterion allweddol i ymdrin â nhw, a*

*(c) gofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu'r llythyrau uchod.*

**5 CYMDEITHAS CYSAG CYMRU**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod CYSAG Cymru a gynhaliwyd yn Nhonypandy, Rhondda Cynon Taf, ar 13 Tachwedd 2009 (dosbarthwyd yn y cyfarfod).

Dywedodd y Parchedig B.H. Jones ei fod yn mwynhau mynd i gyfarfodydd CYSAG Cymru am eu bod yn addysgiadol iawn ac yn darparu cyfle i bob CYSAG ar draws Cymru gyfarfod i rannu safbwyntiau ac arferion da. Adroddodd fod y prif gyflwyniad yn y cyfarfod diwethaf gan Joanne Glenn, Pennaeth yr Uned Strategaeth Cydlynu'r Gymuned gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y 'Strategaeth Cydlynu'r Gymuned ar gyfer Cymru gyfan'. Nod y cyflwyniad oedd edrych ar gydlyniad cymunedol o bersbectif Llywodraeth y Cynulliad. Roedd un agwedd o'r cyflwyniad yn cyfeirio ar y cynigion i ddatblygu cwrs TGAU yn canolbwyntio ar y ffydd Mwslimaidd oherwydd mai dyna lle'r nodwyd y prif broblemau gyda therfysgaeth. Cafwyd trafodaeth eithaf tanllyd ar y mater, gyda'r teimlad y byddai cyflwyno TGAU ar gyfer un ffydd yn unig

yn annheg ac amhriodol. Roedd Mr. G. Craigen wedi gwneud sylw na fyddai TGAU o'r fath yn bodloni'r meini prawf cenedlaethol a bod yn agored i bawb gan mai'r nod presennol oedd peidio â meithrin ffydd unrhyw un traddodiad crefyddol. Cynghorodd y Parchedig Jones fod hwn yn fater a fyddai'n cael ei ystyried eto mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Hefyd adroddodd y Parchedig Jones ar ail gyflwyniad gan Mary Parry, 'Doliau Persona', lle'r roedd personoliaeth a nodweddion penodol yn cael eu rhoi i'r doliau a oedd yn helpu'r plant i ymchwilio i faterion a oedd yn peri pryder. Roedd y doliau'n dod yn gynyddol boblogaidd mewn ysgolion ar gyfer disgyblion Cyfnod Sylfaen. Mewn ymateb i gwestiynau esboniodd bod y doliau yn annog y plant i gyfathrebu ac ymdrin â phynciau sensitif er mwyn rhannu a dysgu.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi cofnodion cyfarfod CYSAG Cymru a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2009 ynghyd â'r adroddiad ar lafar gan y Parchedig B.H. Jones.*

## 6 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y cynhelir cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych am 10.00a.m. ar 7 Mehefin 2010 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Llys Nant, Prestatyn. Cyfeiriodd Mrs. E. Wright at yr anawsterau i rai athrawon o ran cael rhywun i gymryd eu dosbarthiadau pan fo cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod o'r wythnos bob tro. Cytunwyd i geisio ystyried y pwynt yma wrth drefnu cylchred cyfarfodydd y Cyngor Sir ar gyfer 2011/12.

Ar y pwynt yma cyfeiriodd y Cadeirydd at rinweddau arfer flaenorol CYSAG o wahodd athrawon i gyfarfodydd i roi cyflwyniad ar y ddarpariaeth Addysg Grefyddol yn eu hysgol a nododd y byddai'n hoffi parhau â'r trefniant hwnnw. Hefyd croesawodd y Cadeirydd farn yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol ar arferion yn y dyfodol.

Awgrymodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol bod angen rhwydweithio arferion da er mwyn cefnogi athrawon ac roedd o blaid rhannu adnoddau rhwng athrawon gyda darnau o waith ar bynciau penodol er mwyn osgoi dyblygu ac amser paratoi/cynllunio adnoddau. Cynghorodd ei fod wedi codi hyn yn y Fforwm Ysgolion Uwchradd a'i fod wedi anfon CD rom gwag ynghyd ag adnodd yr oedd wedi'u gynhyrchu pan yn Bennaeth Addysg Grefyddol fel arwydd o ewyllys dda a gofynnodd i'r ysgolion wneud hynny'n ôl er mwyn hwyluso'r broses hon. Roedd yr aelodau'n croesawu'r fenter a mynegwyd diddordeb mewn gweld rhai o'r adnoddau. Cytunwyd i ystyried y mater hwn yn fanylach yn y cyfarfod nesaf.

Cyn cau'r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol am ei waith a diolchodd i'r aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniadau i'r trafodaethau.

Gorffennodd y cyfarfod am 11.15 a.m.

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 7 Mehefin 2010 |
| Eitem Agenda : | **3** | DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGIADAU |

*Y Cefndir i'r Adroddiad:*

Mae gan y CYSAG ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth AG ac addoli ar y cyd yn yr ysgolion, ac mae ganddo arferiad sydd bellach wedi ennill ei blwyf o dderbyn a dadansoddi adroddiadau arolygiadau Estyn ym mhob un o'i gyfarfodydd.

*Diben yr Adroddiad:*

I roi gwybod i'r aelodau am ganlyniadau Arolygiadau Diweddar Estyn am ysgolion.

*Argymhellion:*

- I dderbyn yr adroddiad
- Llythyr i'w anfon i bob un o'r ysgolion yn rhoi gwybod iddynt fod eu Hadroddiad Arolygiad wedi ei ystyried, yn eu llongyfarch ar y nodweddion da a arenwyd ac yn eu hatgoffa am y gwasanaethau a gynigir gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG a'r Swyddogion Gwelliant Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd y mae angen eu datblygu neu unrhyw faterion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt.
- I ofyn i'r AALl ddosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion dan sylw.

**SYLWADAU CYD-DESTUN: ADRODDIADAU AROLYGIAD**
**CYSAG SIR DDINBYCH**

**7 Mehefin 2010**

**4 Ysgol**

| Ysgol | Dyddiadau | Arolygwr Cofrestredig | Arol. YMCD / Cwestiwn Allweddol 3 | Arol. AG |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol y Parc** | **09/12/09** | **Stephen Dennett** | **Buddug Bates** | **Heb ei arolygu** |
| *Mae Ysgol y Parc yn tynnu'r rhan fwyaf o'i disgyblion o'r ardal gyfagos sy'n amgylchynu'r ysgol, ardal sydd heb fod yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae oddeutu 12% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn darparu addysg i blant rhwng 3 a 7 oed. Cafodd oddeutu 12% o'r plant eu harenwi fel rhai y mae angen anghenion dysgu ychwanegol [ADY] arnynt, ond nid oedd yr un plentyn wedi cael datganiad anghenion addysg arbennig [AAA]. Mae tua 5% o'r plant yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol [SIY]. .Nid oes yr un plentyn yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Yn ystod cyfnod yr arolygiad roedd 143 o ddisgyblion ar lyfrau'r ysgol, ynghyd a 38 o blant meithrin. .* | | | | |
| **Ysgol Maes Hyfryd** | **18/01/10** | **Merfyn Lloyd Jones** | **Hazel Hughes** | **Merfyn Lloyd Jones** |
| *Mae Ysgol Maes Hyfryd wedi ei lleoli ym mhentref bychan Cynwyd ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o'i gwmpas. Mae 73 o ddisgyblion ar lyfrau''r ysgol gan gynnwys y 12 sydd yn y dosbarth meithrin. Daw 75% o gartrefi nad ydynt un ai'r ffyniannus na dan anfantais economaidd. Daw 39% o gartrefi lle siaredir Cymraeg a'r gweddill o gartrefi Saesneg eu hiaith. Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Maes Hyfryd. Y Gymraeg yw iaith feunyddiol yr ysgol a hi yw cyfrwng yr addysg yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 1. Yng Nghyfnod Allweddol 2 defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg yn yr addysgu. Mae 8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae gan 3 o'r disgyblion ddatganiad AAA ac mae 5 wedi eu harenwi fel disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt dan y drefn 'Gweithredu Ysgol Plws'.* | | | | |
| **Ysgol Bryn Collen** | **19/01/10** | **Eifion R Morgan** | **Eifion R Morgan** | **Eleri Honour** |
| • *Lleolir Ysgol Bryn Collen ar gyrion Ystâd Pengwern ar ochr ddeheuol Llangollen. Mae'r adeilad yn un a rennir gydag Ysgol y Gwernant sydd yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg. Daw'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o dref Llangollen a rhai o'r ardal o'i hamgylch. Mae 15 o blant meithrin sy'n mynychu'r ysgol yn y boreau yn unig ac mae cyfanswm o 170 o ddisgyblion ar lyfrau'r ysgol. Mae tua 16% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Arenwir 27% o'r disgyblion fel rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol [ADY] ac o'r rhain mae gan 3 ddatganiad anghenion addysg arbennig. Mae 24 o'r disgyblion ar gofrestr gweithredu ysgol plws yr ysgol a 15 arall ar y rhestr gweithredu ysgol. Disgrifir yr ardal fel un sy'n rhesymol o ffyniannus a dim ond lleiafrif o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi sydd dan anfantais economaidd. Saesneg yw'r iaith yn y cartrefi a dim ond mewn dau deulu y mae'r plant yn siarad Cymraeg. Mae 3 disgybl sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol wedi ennill 'Marc Ansawdd' yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn 2007 fel cydnabyddiaeth o'r gwaith a wneir ganddi i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd. Yn ogystal mae hi wedi derbyn Gwobr Arian fel Eco-Ysgol ac ar hyn o bryd mae hi'n gweithio tuag at y Wobr Ysgolion Iach.* | | | | |

| Ysgol Gellifor | 01/02/10 | Gol. Goronwy Morris | Jane Williams | Heb ei arolygu |
|---|---|---|---|---|
| *Daw'r disgyblion o ardal sy'n gymharol lewyrchus ac nid ydynt yn ffyniannus na dan anfantais economaidd. Nid oes yr un o'r disgyblion yn siarad Cymraeg sef eu hiaith gyntaf. Mae 3% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Ar hyn o bryd mae 74 o ddisgyblion, ynghyd â 5 o blant meithrin rhan amser ar lyfrau'r ysgol.. Mae 8 o'r disgyblion wedi eu harenwi fel rhai sydd ag anghenion addysg arbennig gan gynnwys 4 sydd ar weithredu ysgol plws. Yn ogystal â'r Pennaeth mae tri o athrawon amser llawn a dau athro rhan amser ar y staff. Mae'r Pennaeth yn addysgu'r Dosbarth Bl 5 a 6 am 3 diwrnod bob wythnos.* . | | | | |

**Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygiad**
**CYSAG Sir Ddinbych**

**7 Mehefin 2010**

## DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

## SYLWADAU CADARNHAOL

Darpariaeth Datblygiad YMCD 4 Ysgol

- Mae ystod eang o brofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda dros ben. *(Ysgol y Parc)*
- Mae profiadau dysgu eithriadol o dda yn hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae nodweddion da a dim diffygion pwysig yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi ymdeimlad cryf o gyflawniad i'r disgyblion ac yn eu hannog i barchu talentau eraill. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. *(Ysgol Gellifor)*

Y Cwricwlwm Cymreig 4 Ysgol

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg yn dda. Arddangosir gorchmynion a geirfa mewn mannau amlwg ym mhob dosbarth a gwneir defnydd effeithiol ohonynt. Gwneir defnydd cyson a mynych o'r iaith ar hyd y dydd ym mhob dosbarth. *(Ysgol y Parc)*
- Rhoddir sylw da i'r Cwricwlwm Cymreig, sef dimensiwn Cymreig y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o'u hetifeddiaeth ddiwylliannol, yn lleol ac yn genedlaethol, trwy gyflwyno storiâu Cymraeg traddodiadol, a thrwy astudio gwaith arlunwyr, cerddorion a chyfansoddwyr lleol. (Y*sgol y Parc)*
- Mae hyfedredd dwyieithog y disgyblion yn cael ei ddatblygu'n llwyddiannus. Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng yr addysgu

yn y ddau gyfnod allweddol. Rhodir pwyslais da ar ddimensiwn Cymreig y cwricwlwm. *(Ysgol Maes Hyfryd)*

- Mae cyfranogi'n rheolaidd yn Eisteddfod yr Urdd wedi cyfoethogi ac ehangu ymwybyddiaeth ddiwylliannol y disgyblion i raddau helaethach. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Defnyddir darpariaeth briodol i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'r Cwricwlwm Cymreig trwy ddathlu Gŵyl Dewi Sant a chlwb llwyddiannus yr Urdd. Mae'r disgyblion yn cystadlu'n flynyddol, yn lleol ac yn Sirol ac yn ddiweddar wedi llwyddo i gyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r cyfleoedd i ddysgu am draddodiadau, diwylliant a hanes Cymru wedi eu hintegreiddio'n dda i'r cwricwlwm. Ymwelir â mannau sy'n rhan o'r etifeddiaeth Gymreig ac astudir gwaith arlunwyr Cymreig.*(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r cynllunio ar gyfer cynnwys y Cwricwlwm Cymreig yn drylwyr iawn ac mae'n cadarnhau gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr am ddiwylliant ac etifeddiaeth |Cymru yn dda iawn. Mae digwyddiadau fel cyngherddau Cymraeg a gweithgareddau'r Urdd yn cyfrannu'n effeithiol i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion yn dda. *(Ysgol Gellifor)*

Elusennau ac achosion da 4 Ysgol

- Mae cysylltiadau da gyda'r gymuned yn lleol ac yn ehangach ac mae';r ysgol yn cefnogi nifer o elusennau. *(Ysgol y Parc)*
- Mae' r ysgol yn cefnogi egwyddorion Marchnad Deg ac yn trefnu i gynnal digwyddiadau i godi arian i nifer o elusennau. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Anogir y disgyblion i gefnogi mentrau cymunedol ac i godi arian i grwpiau elusennol e.e. Y Lleng Brydeinig. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Trwy gyfrwng gwaith elusennol mae'r disgyblion yn dysgu cynorthwyo rhai sy'n llai ffodus na hwy eu hunain. *(Ysgol Gellifor)*

Gweithgareddau / Cysylltiadau all-gwricwlaidd 4 Ysgol

- Mae ystod dda o glybiau a gweithgareddau all-gwricwlaidd sy'n ehangu ac yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Yn ogystal mae gweithgareddau all-gwricwlaidd yn datblygu sgiliau cymdeithasol a phersonol y disgyblion yn dda iawn. *(Ysgol y Parc)*
- Mae profiadau'r disgyblion yn cael eu hyrwyddo a'u cyfoethogi yn dda iawn gan ystod eang o weithgareddau all-gwricwlaidd, diwylliannol a chymunedol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n arwyddocaol i brofiadau a datblygiad y disgyblion. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae ystod y profiadau all-gwricwlaidd a ddarperir gan yr ysgol yn cyfrannu'n dda tuag at wella datblygiad personol y disgyblion. Mae'r clybiau yn cynnwys chwaraeon, côr, celf, band roc a'r Urdd. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn ar gael i ddisgyblion CA1 ac mae'r cyfan ohonynt yn cael eu mynychu gan gyfran dda o ddisgyblion CA2. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r dysgwyr yn elwa ar sail nifer o glybiau all-gwricwlaidd sydd yn cael eu cynllunio'n dda, gan gynnwys ymweliadau a gweithgareddau cyfoethogi y mae llawer ohonynt yn golygu gweithio yn y gymuned leol a gyda'i haelodau. Er enghraifft, mae'r band chwyth yn perfformio'n rheolaidd yn y gymuned leol ac yn ehangach ac mae gradd ymwneud yr

ysgol gyda chystadlaethau cenedlaethol yr Urdd yn eithriadol. *(Ysgol Gellifor)*

Cysylltiadau / Ymwneud â'r gymuned leol 4 Ysgol

- Mae'r cysylltiadau gyda'r rhieni, y gymuned a sefydliadau addysgol eraill yn rhagorol. *(Ysgol y Parc)*
- Mae'r profiadau dysgu yn cael eu cyfoethogi gan bartneriaethau rhagorol. Mae partneriaeth gref rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio holiaduron i gryfhau'r bartneriaeth hon ac mae'r rhieni yn frwdfrydig wrth iddynt godi arian sylweddol i'r ysgol. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae cysylltiadau effeithiol gydag ysgolion cynradd yn yr ardal ac yn arbennig gydag un o'r ysgolion uwchradd yn y dalgylch, sef Ysgol Dinas Brân. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae cefnogaeth frwdfrydig y gymuned yn nodwedd eithriadol a chaiff ei gyfoethogi gan y Farchnad Ffrwythau a Llysiau. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae'r Rhieni, yr Athrawon a Chyfeillion yr Ysgol yn weithredol ac yn cynorthwyo gyda'r digwyddiadau codi arian niferus a gynhelir. Mae gwirfoddolwyr o'r gymuned yn cynorthwyo'n rheolaidd gyda chefnogi darllen, yn mynd ar deithiau ysgol ac yn cael eu gwahodd i'r ysgol i gyflwyno sgyrsiau. Mae cysylltiadau cynhyrchiol gyda cholegau lleol. Mae côr yr ysgol yn cymeryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r cysylltiadau eithriadol o effeithiol gyda rhieni yn nodwedd arbennig ar waith yr ysgol. Mae ymwelwyr rheolaidd â'r ysgol yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth gymunedol y disgyblion. Mae gwaith yr ysgol gyda'i phartneriaid yn y gymuned leol a thu hwnt iddi yn eithriadol ac yn cyfoethogi addysg y disgyblion yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mae ymwelwyr o'r gymuned fel gweinidogion ac aelodau o'r heddlu yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgu ac yn darparu ystod o brofiadau gwerthfawr o'r byd tu allan i'r ysgol. *(Ysgol Gellifor)*

Y rhaglen ar gyfer / effaith y ddarpariaeth ABACh 4 Ysgol

- Mae'r cwricwlwm ABACh yr ysgol yn cael ei gynllunio'n dda ac yn cael ei gyfoethogi trwy gyfrwng y trafodaethau dosbarth 'amser cylch'. *(Ysgol y Parc)*
- Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i'r Fframwaith ABACh. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae'r ysgol yn datblygu addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion trwy gyfrwng ei gweithgareddau dyddiol ac amser cylch. Rhoddir blaenoriaeth uchel i les y disgyblion. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r ddarpariaeth gymdeithasol a moesol yn cael ei datblygu trwy gyfrwng rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd dda. *(Ysgol Gellifor)*

Dinasyddiaeth Fyd / Addysg am y Byd / Cysylltiadau Rhyngwladol 4 Ysgol

- Mae Dinasyddiaeth Fyd yn un o gryfderau'r ysgol ar sail y gwaith a wneir i wneud y disgyblion yn ymwybodol o'r lle yn eu hardal gyfagos a'u bro, ynghyd â'r gwaith a wneir trwy'r cysylltiadau rhagorol gyda phentref yn Uganda ac ysgolion yn Florida a Canada. *(Ysgol y Parc)*

- Mae dinasyddiaeth Fyd yn cael ei hyrwyddo'n eithriadol o dda. Mae'r cyswllt gydag ysgol yn Nepal yn cynnig amrywiaeth o brofiadau i'r disgyblion. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae'r addysg mewn datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd yn dda. . *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r ysgol wedi ennill Gwobr Efydd Eco yr Ysgolion. Mae'n trefnu yn rheolaidd i ailgylchu papur, plastig ac eitemau eraill a chaiff hyn ei fonitro gan y cyngor Eco. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. *(Ysgol Gellifor)*

Ymwybyddiaeth / Hyrwyddo datblygiad cynaliadwy 4 Ysgol

- Gwneir darpariaeth eithriadol o dda yn yr addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd ac mae hynny'n sicrhau bod gan y disgyblion syniad da am eu lle yn y byd. Mae'r ysgol wedi sicrhau statws 'Lluman Gwyrdd' ac mae hi'n ailgylchu nifer o ddefnyddiau gan gynnwys papur a chetris inc. Mae gardd yr ysgol a'r ardal wyllt yn cael eu cynnal yn dda ac mae'r plant yn derbyn cyfrifoldeb am eu cynnal. *(Ysgol y Parc)*
- Mae'r ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd cynaladwyaeth ac yn datblygu'r maes hwn yn effeithiol iawn. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae'r ysgol yn gweithio tuag at y Wobr Eco Aur i ysgolion. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae'r addysg mewn datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd yn dda. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Darperir yn dda ar gyfer dinasyddiaeth fyd trwy gysylltiadau gydag ysgolion ac asiantaethau mewn nifer o wledydd gan gynnwys Nepal, Zimbabwe, Mauritius a Thwrci. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd ar draws y cwricwlwm. *(Ysgol Gellifor)*
- Mae'r ysgol, gyda'i grŵp eco gweithgar, wedi llwyddo i ennill y Wobr Eco Arian. Mae nifer o arddangosfeydd buddiol o gwmpas yr ysgol sydd yn hyrwyddo'r thema eco, cynaladwyaeth a dinasyddiaeth fyd. *(Ysgol Gellifor)*
- Mae'r ysgol yn gweithredu mewn modd cynaliadwy gyda'r disgyblion yn ymwneud ag ystod o weithgareddau ailgylchu. *(Ysgol Gellifor)*

Y Gofynion Statudol ar gyfer AG 3 Ysgol

- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys, diddorol, cyffrous a pherthnasol sydd ar gael i'r holl ddisgyblion ac yn cydymffurfio gyda'r gofynion cyfreithiol. *(Ysgol y Parc)*
- Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae'r addysg grefyddol ar gyfer y dysgwyr yn y dosbarth derbyn yn cwrdd â'r gofynion statudol. *(Ysgol Gellifor)*

Ymweliadau addysgol / Ymwelwyr 3 Ysgol

- Yn ogystal mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da iawn ar gyfer dysgu trwy drefnu ymweliadau i fannau diddorol. Mae'r rhain yn atgyfnerthu

dealltwriaeth y disgyblion o'r cwricwlwm ac fe'u defnyddir i symbylu' gwaith ysgrifenedig estynedig o ansawdd uchel a gynhyrchir ar ddiwedd CA1. *(Ysgol y Parc)*

- Mae darpariaeth oddi ar y safle'r ysgol yn cynnig ystod o ymweliadau addysgol ac mae ymwelwyr yn dod â pherthnasedd i holl ddysgu cymdeithasol ac academaidd y disgyblion. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae rhaglen o weithgareddau, ymweliadau a chyfraniadau gan ymwelwyr a gynlluniwyd yn eithriadol o dda yn cynorthwyo o ehangu'r cwricwlwm yn llwyddiannus. *(Ysgol Gellifor)*

Gwybodaeth / Dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill 2 Ysgol

- Mae'r disgyblion yn amlygu parch tuag at ei gilydd ac i bobl o wahanol ddiwylliannau. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol i ychwanegu at ymwybyddiaeth ddiwylliannol y disgyblion trwy gyfrwng ei chysylltiadau agos gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a chysylltiadau gydag ysgol yn Nepal. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r cwricwlwm yn effeithiol o ran sicrhau bod y disgyblion yn dod yn ymwybodol o'u diwylliant hwy eu hunain a diwylliant pobl eraill. *(Ysgol Gellifor)*

Natur yr addoli ar y cyd 2 Ysgol

- Mae'r achlysuron addoli ar y cyd hefyd yn gwneud cyfraniad eithriadol i ddealltwriaeth y disgyblion o faterion moesol ac ysbrydol. Mae'r awyrgylch yn y gwasanaethau boreol yn hyrwyddo adfyfyrio ysbrydol a defosiwn. *(Ysgol y Parc)*
- Mae'r gwasanaethau ysgol gyfan sydd ar yr amserlen yn darparu cyfleoedd priodol i'r ysgol fod yn rhan o addoli ar y cyd ac i ddatblygu ymdeimlad cymunedol yn yr ysgol. *(Ysgol Bryn Collen)*

Cynnydd disgyblion / Ennill hyder / Sgiliau 2 Ysgol

- Mae dogfennau polisi a chynlluniau gwaith manwl yn cael eu hadolygu'n drylwyr er mwyn sicrhau cynnydd eithriadol yn nysgu'r plant yn y Cam Sylfaen ac ymdriniaeth dda o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1. Maent yn cynnwys awgrymiadau am yr hyn y bydd y disgyblion yn ei ddysgu, y sgiliau sylfaenol sydd i gael sylw a'r adnoddau y bydd eu hangen. Mae'r rhain yn cefnogi gwaith yr ysgol yn dda iawn. *(Ysgol y Parc)*
- Mae'r athrawon yn ymwybodol o'r angen i sicrhau fod pob plentyn yn cyflawni ar lefel dda yn y sgiliau sylfaen ac allweddol. *(Ysgol Maes Hyfryd)*

Gwaith y cyngor Ysgol 2 Ysgol

- Trwy'r Cyngor Ysgol caiff y disgyblion gyfle i ddylanwadau ar y materion sy'n effeithio ar eu bywyd o ddydd i ddydd.. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae Cyngor Ysgol a Chyngor Eco sydd wedi cael eu hethol yn ddemocrataidd. *(Ysgol Bryn Collen)*

Ymwybyddiaeth Iechyd / Mentrau Ysgolion Iach 2 Ysgol

- Mae'r ysgol wedi ennill Achrediad Cam 4 Ysgolion Iach. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae'r ysgol yn gweithio ar gamau cyntaf y Wobr Ysgolion Iach. *(Ysgol Bryn Collen)*

Cyfle cyfartal 2 Ysgol

- Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu a diddordebau'r disgyblion ac maent yn cael cyfle cyfartal i gael budd o gwricwlwm estynedig a chytbwys. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion a diddordebau'r dysgwyr i gyd gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol [ADY] a'r rhai mwy galluog. Mae natur gynhwysol yr ysgol yn sicrhau bod y cyfleoedd dysgu sydd ar gael yn gyfartal i bawb. *(Ysgol Gellifor)*

Delio gydag Amddifadedd Cymdeithasol a Stereoteipio 2 Ysgol

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer delio gydag anfantais gymdeithasol a stereoteipio yn dda. Mae'r ysgol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anableddau a'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf yn cael mynediad cyfartal i bopeth sydd gan yr ysgol i'w gynnig. *(Ysgol y Parc)*
- Mae'r ysgol yn ceisio delio gydag anfantais trwy roi mynediad cyfartal i'r cwricwlwm a'r gweithgareddau i'r holl ddisgyblion.. *(Ysgol Bryn Collen)*

Addysg yn berthynol i waith 2 Ysgol

- Mae'r ysgol yn darparu addysg dda yn berthynol i waith. *(Ysgol y Parc)*
- Mae nifer o bobl o 'fyd gwaith' yn ymweld â'r ysgol i siarad gyda'r disgyblion. *(Ysgol y Parc)*
- Mae cefnogaeth eithriadol ar gael i'r ysgol gan swyddog cyswllt lleol yr heddlu a swyddog cymunedol yr heddlu. *(Ysgol y Parc)*
- Mae nodweddion da i wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion am y gymuned ehangach ac mae'r rheini yn gorbwyso'r anfanteision. Mae'r cysylltiadau gyda chyflogwyr a diwydiant yn gyffredinol dda. Mae'r ymwelwyr i'r ysgol yn cynnwys staff yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r ysgol yn gosod sylfeini da ar gyfer dysgu gydol oes. *(Ysgol Bryn Collen)*

Cadwraeth / Hyrwyddo gwerthoedd / cwrteisi / parch 1 Ysgol

- Mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng da a drwg ac yn hyrwyddo gwerthoedd megis onestrwydd, tegwch a pharch tuag at ei gilydd yn dda iawn. *(Ysgol Bryn Collen)*

Ansawdd yr addoli ar y cyd dyddiol 1 Ysgol

- Mae'r trefniadau addoli ar y cyd dyddiol yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol. Maent yn gyffredinol Gristnogol eu cymeriad ac yn rhoi ffocws ar bob agwedd o ddatblygiad personol y dysgwyr, ac yn enwedig ar eu datblygiad ysbrydol a moesol. *(Ysgol Gellifor)*

Gwybodaeth a dealltwriaeth o dda a drwg 1 Ysgol

- Mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n gwahaniaethu rhwng da a drwg ac yn hyrwyddo gwerthoedd megis onestrwydd, tegwch a pharch tuag at ei gilydd yn effeithiol. *(Ysgol Bryn Collen)*

Cydymffurfio gyda'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd 1 Ysgol

- Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cwrdd yn llawn gyda'r gofynion statudol. *(Ysgol y Parc)*

Sgiliau dysgu annibynnol 1 Ysgol

- Mae sgiliau dysgu annibynnol y dysgwyr hefyd yn cael eu datblygu'n systematig trwy gyfleoedd a gynllunnir yn ofalus. Mae'r ysgol wedi sicrhau'r Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol am y trydydd tro. *(Ysgol Gellifor)*

Staff/ Oedolion fel modelau rôl 1 Ysgol

- Mae cymysgedd dda o dasgau a arweinir gan oedolion a darperir gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r oedolion yn darparu modelau rôl da wrth iddynt ddatblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion. *(Ysgol Bryn Collen)*

Datblygiad personol 1 Ysgol

- Mae darpariaeth gwricwlaidd yr ysgol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes yn dda. *(Ysgol y Parc)*

**SYLWADAU NEGYDDOL**

Entrepreneuriaeth a Menter 2 Ysgol

- Nid yw sgiliau entrepreneuriaid y disgyblion yn cael eu datblygu'n llawn. Mae rhai disgyblion yn cael cyfleoedd i drin arian yn y siop ffrwythau a'r stondinau ac yn ffair yr ysgol, ond ni wneir digon, ar draws yr ysgol, i roi cyfle i ddisgyblion ddatblygu'r sgiliau y maent eu hangen i gefnogi eu lles economaidd yn y dyfodol. *(Ysgol y Parc)*
- Nid yw ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth wedi ei ddatblygu'n llawn. Mae rhai gweithgareddau, megis ymwneud y plant mewn gwerthu ffrwythau a sudd yn cael eu trefnu. Fodd bynnag, rhoddir rhy ychydig o bwyslais ar ddatblygu sgiliau entrepreneuriaid y disgyblion. *(Ysgol Bryn Collen)*

Y Cwricwlwm / Y Dimensiwn Cymreig 1 School

- Mae diffyg cysondeb yn y pwyslais a roddir ar ddatblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion.  Yn sawl un o'r dosbarthiadau mae'r defnydd anaml ac anwastad o Gymraeg achlysurol a phrinder cyfleoedd strwythuredig yn y gwersi i hyrwyddo sgiliau llafar yn amharu ar ruglder y disgyblion.  *(Ysgol Bryn Collen)*

Cynnydd disgyblion/ Ennill hyder / Sgiliau 1 Ysgol

- Nid oes ddigon o bwyslais ar y pynciau sylfaen ac mae diffygion arwyddocaol yn y cynllunio i ddatblygu sgiliau sylfaenol ac allweddol y disgyblion ac o'r herwydd mae'r cwricwlwm a ddarperir i'r disgyblion hyn nyn annigonol.  Mae angen gwelliant arwyddocaol yn yr agweddau hyn. *(Ysgol Bryn Collen)*

Gofynion statudol AG 1 Ysgol

- Nid yw'r cwricwlwm yn cwrdd â'r gofynion statudol. Nid oes gan y disgyblion fynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys oherwydd nad yw'r pynciau sylfaen, technoleg gwybodaeth, dylunio a thechnoleg, daearyddiaeth, celf a dylunio ac addysg grefyddol wedi eu cynllunio'n effeithiol ar gyfer eu cynnwys yn y cwricwlwm a addysgir.  Mae'r cwricwlwm yn y meysydd hyn yn ddiffygiol o ran cynnydd a dilyniant ac mae'n cael effaith er gwaeth ar ddysgu'r disgyblion. Mae hwn yn ddiffyg pwysig. *(Ysgol Bryn Collen)*

Addysg yn berthynol i waith 1 Ysgol

- Tra bod cysylltiadau gyda chyflogwyr a diwydiant yn gyffredinol dda, gellid gwneud mwy i ymweld â sefyllfaoedd galwedigaethol.  *(Ysgol Bryn Collen)*

## Addysg Grefyddol

**Materion Allweddol:**

- *Codi safonau mewn addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2. (Ysgol Bryn Collen)*

**Sylwadau cadarnhaol**

Gwybodaeth / Dealltwriaeth o Gristnogaeth 2 Ysgol

- Mae'r disgyblion yn gwybod am wyliau Cristnogol a gallant eu trafod yn ddeallus, e.e. digwyddiadau'r Nadolig a'r Pasg.  *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae'r disgyblion yn CA1 a CA2 yn dangos bod ganddynt ymwybyddiaeth dda o werthoedd a chredoau Cristnogol megis rhannu a gofalu am eraill.  *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae gan ddisgyblon CA1 ddealltwriaeth dda o ddigwyddiadau allweddol yn y calendr Cristnogol megis y Nadolig a'r Pasg. *(Ysgol Bryn Collen)*

Gwybodaeth / Dealltwriaeth / Cynhwysiad crefyddau ar wahân i Gristnogaeth 2 ysgol

- Ar draws yr ysgol mae mwyafrif y disgyblion yn deall bod crefyddau eraill ar wahân i Gristnogaeth yn cael eu harfer ar draws y byd. Mae eu gwybodaeth am grefyddau eraill yn datblygu'n dda a gallant drafod eu nodweddion pennaf a'u ffordd o fyw. Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion adalw ffeithiau sy'n berthynol i gredoau, traddodiadau a'r symbolaeth sy'n nodweddu amrywiaeth o grefyddau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 yn medru adalw stori Rama a Sita ac yn amlygu eu gwybodaeth yn dda wrth egluro beth yw Gŵyl Diwali . *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Ar draws y ddau gyfnod allweddol mae'r disgyblion yn mynegi eu barn yn dda am bynciau megis gofal a chyfeillgarwch ac maent yn ymwybodol o amgylchiadau personol pobl sy'n llai ffodus na hwy eu hunain. Maent yn trafod pwysigrwydd gofalu am y byd yn hyderus ac yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau yn y cyswllt hwnnw. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae gan ddisgyblion CA1 ddealltwriaeth gynyddol o draddodiadau a gwyliau crefyddau mawr eraill megis Gŵyl Divali. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Mae'r disgyblion yn dysgu am gredoau ac arferion y grefydd Hindŵaidd trwy astudio duwiau'r grefydd honno a nodweddion allor gartref. *(Ysgol Bryn Collen)*

Gwybodaeth / Dealltwriaeth o'r Beibl / Storiâu Beiblaidd 2 Ysgol

- Yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 mae llawer o'r disgyblion yn sylweddoli bod y Beibl yn llyfr sanctaidd ac mae ganddynt wybodaeth dda am storiâu'r Beibl. Gallant adrodd storiâu poblogaidd o'r Hen Destament a'r Testament Newydd yn eu geiriau eu hunain. Wrth drafod rhai o ddamhegion yr Iesu maent yn egluro eu harwyddocâd mewn cyd-destun cyfoes.(Ysgol *Maes Hyfryd)*
- Mae gan bron y cyfan o ddisgyblion CA1 wybodaeth dda am rai o brif storiâu'r Beibl. *(Ysgol Bryn Collen)*
- Ym mhen isaf CA2 mae llawer o'r dysgwyr yn sylweddoli bod y Beibl yn destun cysegredig ac yn deall arwyddocâd yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Caiff hyn ei ymestyn ymhellach trwy eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd y ffydd Gristnogol yng Nghymru yn seiliedig ar eu gwaith ar Mari Jones a'i Beibl. *(Ysgol Bryn Collen)*

Ymweld ag eglwysi lleol / Capeli / Mannau addoliad 2 Ysgol

- Mae llawer o ddigyblion CA1 a CA2 wedi ymweld â mannau addoli yn y gymuned. Maent yn trafod nodweddion a dibenion arferion y gwahanol grefyddau yn hyderus. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Trwy ymweld â mannau addoliad lleol mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o arwyddocâd prif nodweddion adeiladau crefyddol.. *(Ysgol Bryn Collen)*

Cyfansoddi / Ysgrifennu eu gweddïau eu hunain 2 Ysgol

- Mae'r disgyblion yn ysgrifennu gweddïau personol o ansawdd da, yn eu cyflwyno i eraill ac yn deall pwrpas gweddïo. *(Ysgol Maes Hyfryd)*
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol o ystyr gweddïo fel dull o gyfathrebu gyda Duw ac yn ysgrifennu eu gweddïau o ddiolch mewn modd sensitif. *(Ysgol Bryn Collen)*

Gwybodaeth / Dealltwriaeth o gysyniadau crefyddol / Themâu 1 Ysgol

- Mae gan lawer o'r disgyblion hynaf ymwybyddiaeth o'r gwerthoedd pwysig a'r cyfraniad arwyddocaol a wnaed i'r grefydd Gristnogol gan fudiadau fel Byddin yr Iechydwriaeth. *(Ysgol Bryn Collen)*

Dim Diffygion 1 Ysagol

- Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol. *(Ysgol Maes Hyfryd)*

Cyfleoedd i ddatblygu / Mynegi credoau personol 1 Yagol

- Ym mhen uchaf CA2 mae'r disgyblion i gyd yn ymateb yn dda i gwestiynau ynghylch y nodweddion arbennig sy'n eiddo iddynt. *(Ysgol Bryn Collen)*

Deall cymuned a chyfrifoldeb am ei haelodau 1 Ysgol

- Trwy eu hymdrechion i gasglu arian i elusennau mae'r disgyblion i gyd yn datblygu ymwybyddiaeth o fod yn rhan o gymuned fyd-eang ac yn deall bod ganddynt gyfrifoldeb am eu cyd-aelodau o deulu dyn. *(Ysgol Bryn Collen)*

Ymwybyddiaeth o effaith credo ar ffordd o fyw 1 Ysgol

- Mae llawer o ddigyblion yn cymhwyso'r storiâu moesol a chrefyddol i sefyllfaoedd yr oes fodern gan gynnwys y rhai sy'n rhan o'u bywydau hwy eu hunain. Maent yn dechrau deall pwysigrwydd bod yn gyfrifol am eraill. *(Ysgol Bryn Collen)*

## SYLWADAU NEGYDDOL

Gwybodaeth / Dealltwriaeth/ Cynhwysiad crefyddau ar wahân i Gristnogaeth 1 Ysgol

- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion am grefyddau ar wahân i Gristnogaeth yn annatblygedig, yn arbennig yn CA2. *(Ysgol Bryn Collen)*

Y defnydd o arteffactau i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. 1 Ysgol

- Nid yw disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn deall arwyddocâd arteffactau crefyddol cyfarwydd o ddiwylliannau eraill. *(Ysgol Bryn Collen)*

Cyfleoedd i / Gallu i adfyfyrio ar agweddau ar y gwaith 1 Ysgol

- Yn CA2 mae gallu'r disgyblion i adfyfyrio ac i fynegi barn yn annatblygedig. *(Ysgol Bryn Collen)*

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Pwyllgor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol**
**(CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 7 Mehefin 2010 |
| Eitem Agenda: | **4** | CYFLWYNIAD AM Y PROSIECT TRAWSNEWID CA2/CA3 |

*<u>Y Cefndir i'r Adroddiad:</u>*

Cyflwyniad *Powerpoint* o'r enw 'Cloddfa Archeolegol' am y Prosiect Trawsnewid CA2/CA3, sef adnodd i athrawon AG a ddatblygwyd gan yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG ac sy'n cael ei dreialu gan Ysgol Uwchradd Dinbych a phump o'r ysgolion yn ei dalgylch.

*<u>Diben yr Adroddiad:</u>*

I alluogi'r aelodau i fod yn ymwybodol o'r adnoddau sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer addysgu AG.

*<u>Argymhellion:</u>*

I dderbyn y cyflwyniad.

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)**

<table>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>7 Mehefin 2010</td></tr>
<tr><td>Eitem Agenda:</td><td>5a</td><td>CYSAGC – CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MAWRTH 2010</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Y Cefndir i’r Adroddiad:</u><br>Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o Gymdeithas Cymru y CYSAG ac mae’n derbyn adroddiadau am y cyfarfodydd gan yr aelodau sy’n eu mynychu a chopïau o gofnodion cyfarfodydd ac unrhyw adroddiadau eraill gan y Gymdeithas.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Diben yr Adroddiad:</u><br>Er mwyn rhoi gwybod i’r aelodau am ffocws a phrif ganlyniadau’r cyfarfod diwethaf.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br>▪ I dderbyn adroddiad llafar ynghyd a chofnodion y cyfarfod blaenorol.</td></tr>
</table>

**Cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yn Abertawe ar 18 Mawrth 2010 / *Minutes of the Wales Association of SACREs meeting held at Swansea on 18 March, 2010***

**Yn Bresennol / *Present***

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Rheinallt Thomas<br>Eurfryn Davies<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Gill Vaisey<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Carys Thomas<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Michael Gray<br>Vicky Thomas<br>Richard Waters<br>David Brook<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Luisa Munro-Morris<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Meinir Wyn Loader<br><br>**Ceredigion**<br>Lyndon Lloyd<br><br>**Conwy**<br>Philip Lord<br>Nicholas Richter | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Brian H Jones<br>Philip Lord<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Philip Lord<br><br>**Gwynedd**<br>W M Meredith<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tudful***<br>Carys Thomas<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Gill Vaisey<br>Sue Cave<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***<br>Jen Malcolm<br>John Rogers<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Vicky Thomas<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br>Gwyn Rogers<br>Hugh George<br><br>**Powys**<br>John Mitson | **Rhondda Cynon Taf**<br>Carys Thomas<br>Susan Mitchell<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Vicky Thomas<br>Eldon Phillips<br>Carmel Reynolds<br>Kelsang Tumo<br>Heather Hawes<br>Janet Neilson<br>Alison Lewis<br>Pat Davies<br>Jain Watkins<br><br>**Torfaen**<br>Vicky Thomas<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Vicky Thomas<br>Rob Williams<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Tania ap Siôn<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Denize Morris (APADGOS / *DCELLS*)<br>Gavin Craigen (Canolfan St Giles *Centre*)<br>Leslie Francis (Canolfan St Mary's *Centre*)<br>Ben Wigley (MAGC / *REMW*) |

| | |
|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG'au Cymru a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Abertawe, ar 18 Mawrth 2010.** | **Minutes of the Wales Association of SACREs meeting held at the Council Chamber, Civic Centre, Swansea, 18 March, 2010.** |
| **1. Cyflwyniad a chroeso** Croesawyd yr aelodau i Abertawe gan Arglwydd Faer Abertawe, y Cynghorydd Alan Lloyd. Mynegodd ei werthfawrogiad o bwysigrwydd AG mewn ysgolion, ac o rôl CCYSAGauC yn hyn o beth. Tynnodd sylw arbennig at yr angen i bobl ifanc ddeall gwahanol grefyddau ac adfyfyrio'n bersonol ar eu safbwyntiau eu hunain. | **1. Introduction and welcome** The Lord Mayor of Swansea, Cllr Alan Lloyd welcomed members to Swansea. He expressed his appreciation of the importance of RE in schools and WASACRE's role in this. He drew particular attention to the need for young people to understand different religions and to engage in personal reflection on their own perspectives. |
| **2. Adfyfyrio tawel** Darllenodd y Cadeirydd fyfyrdod Grawys gan Ruth Harvey, *Lead us on our journey*. | **2. Quiet Reflection** The Chair read a Lent meditation by Ruth Harvey, *Lead us on our journey*. |
| **3. Ymddiheuriadau:** Fred Gilmore, Edward Evans, Mary Parry, Lynda Maddocks, Maxine Bradshaw, Chris Abbas, Vicky Barlow, Eirian Pierce, Marilyn Fraser, Bethan James, Christine Robinson, Juliet Pugh, Helen Gibbon. | **3. Apologies:** Fred Gilmore, Edward Evans, Mary Parry, Lynda Maddocks, Maxine Bradshaw, Chris Abbas, Vicky Barlow, Eirian Pierce, Marilyn Fraser, Bethan James, Christine Robinson, Juliet Pugh, Helen Gibbon. |
| **4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhonypandy ar 13 Tachwedd, 2009** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir. | **4. Minutes of the meeting held at Tonypandy on 13 November, 2009.** The minutes of the meeting were accepted as an accurate record. |
| **5. Materion yn codi** Eitem 5 — yr oedd cynnwys yr holiadur a oedd yn trafod CYSAG'au yn y gymuned leol wedi ei gytuno gan y Pwyllgor Gwaith, a byddai'r holiadur yn cael ei ddosbarthu i GYSAG'au i'w drafod a'i gwblhau yn ystod eu cyfarfod yn nhymor yr haf.<br>Eitem 10 — yr oedd llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth Ann Kean (Prif Arolygwr Gweithredol Estyn), yn pwysleisio y byddai diffyg cydymffurfiad â gofynion statudol ynglŷn ag addoli ar y | **5. Matters arising** Item 5 – the questionnaire exploring SACREs in the local community had been agreed by the Executive Committee and will be distributed to SACREs to look at and complete in their summer term meeting.<br>Item 10 – a letter from Ann Kean (Acting Chief Inspector for Estyn) had been received which emphasised that non-compliance with statutory requirements with regard to collective worship and RE would be taken seriously. It was reported |

| | |
|---|---|
| cyd ac AG yn cael ei gymryd o ddifrif. Adroddwyd bod PYCAG (mewn cydweithrediad â ChCYSAGauC) yn dymuno hyrwyddo ymhellach yr ymrwymiad hwn i adrodd ar addoli ar y cyd ac AG, drwy drefnu cyfarfod ag Iwan Roberts o Estyn cyn ystyried ymateb ffurfiol priodol.<br><br>**6. Cyflwyniad PYCAG gan y Ditectif Uwch-Arolygydd Pam Kelly o Heddlu Dyfed-Powys** Amlinellodd Pam Kelly ei chefndir fel cyn-fyfyriwr Astudiaethau Crefyddol yng Ngholeg y Drindod a oedd wedi ymuno â'r heddlu. O'r safbwynt hwn, trafododd bwysigrwydd AG ar gyfer swyddi yn y sector cyhoeddus, gyda golwg arbennig ar y gwasanaeth heddlu. Cyflwynodd enghreifftiau lle'r oedd cefndiroedd diwylliant a ffydd wedi bod yn bwysig, megis achosion Stephen Lawrence a Victoria Climbié. Yr oedd y rhain wedi deillio ar benodi Swyddogion Cyswllt Teulu, a'r angen am hyfforddi pob swyddog mewn materion ffydd a diwylliant. Yr oedd addysg o'r fath yn bwysig i'r gwasanaeth heddlu o ran ymdrin â phobl yn briodol fel unigolion ac ymateb i'w hanghenion. Yr oedd gwybodaeth, dealltwriaeth, a pharch, mewn perthynas ag amrywiaeth grefyddol a diwylliannol, yn faes pwysig i'w drafod wrth benodi staff hefyd. I gloi, gwnaeth Ms Kelly ble am i bwysigrwydd AG yn amgylchedd yr ysgol gael ei gydnabod, ynghyd â phwysigrwydd AG mewn bywyd gwaith. Diolchodd i bawb a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith mewn ysgolion a oedd yn cyfrannu at swyddi yn y sector cyhoeddus, er enghraifft yn y gwasanaeth heddlu.<br><br>**7. Cyflwyniad PYCAG: Norma Glass, *Dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth: addoldai*** Cyflwynodd Vicky Thomas gyflwyniad Norma Glass drwy leoli ei arwyddocâd yng nghyd-destunau ‘dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth’ a ‘chydlyniant cymunedol’. Eglurodd Norma Glass y cefndir i'w gwaith addysgol gydag | that NAPfRE (working with WASACRE) wished to further this commitment to reporting on collective worship and RE by arranging a meeting with Iwan Roberts, Estyn, before considering an appropriate formal response.<br><br>**6. NAPfRE presentation by Detective Superintendent Pam Kelly, Dyfed Powys Police** Pam Kelly outlined her background as a former Trinity College RS student who joined the police force. From this perspective, she discussed the importance of RE for jobs in the public sector with particular reference to the police service.She presented examples where culture and faith backgrounds have been significant such as Stephen Lawrence and Victoria Kindley cases. These gave rise to the appointment of family Liaison  Officers and the need for the training of every officer in faith and cultural issues. Such education was important for police service in dealing with people appropriately as individuals and responding to their needs. Knowledge, understanding, and respect of religious and cultural diversity was also an important area to explore in appointing staff. She concluded with a plea that the importance of RE in the school environment should be recognised and the importance of RE in working life. She thanked those involved for the work done in schools which contributed to public sector jobs, such as the police service.<br><br>**7. NAPfRE presentation: Norma Glass, *Learning outside the classroom: places of worship*.** Vicky Thomas introduced Norma Glass’s presentation by locating its significance within the contexts of ‘learning outside the classroom’ and ‘community cohesion’. Norma Glass explained the background |

| | |
|---|---|
| ysgolion, a oedd yn rhychwantu ugain mlynedd. Yr oedd yr arddangosfa 'The Jewish Way of Life' wedi cychwyn yn ei synagog hi yn Abertawe. Yn wreiddiol, bu ei synagog yn ddigon mawr i ddal tua 100 o ddisgyblion, ond yr oedd y synagog newydd yn llai, ac o'r herwydd yr oedd CD-ROM addysgol wedi ei gynhyrchu a oedd yn cyflwyno'r gweithgareddau a fu'n cael eu cynnal yn y synagog. Yr oedd y gweithgareddau hyn yn canolbwyntio ar helpu plant i ddysgu am y ffordd Iddewig o fyw drwy chwarae, yn weithredol a chan wneud defnydd llawn o'r synhwyrau. Gwyliodd yr aelodau ran o'r adnodd lle'r oedd disgyblion yn cael eu tywys drwy ymarfer chwarae rôl ynglŷn â phriodas Iddewig. Yr oedd y CD-ROM hefyd yn cynnwys gwyliau Iddewig, popeth a oedd yn digwydd mewn synagogau, a thaith o gwmpas y synagog. Yr oedd rhan o'r adnodd ar gael ar wefan GDC Cymru. Yr oedd y fersiwn DVD o'r adnodd (gyda dewislenni) ar gael gan Peter Hall o gwmni Freeway Productions, y gellid cysylltu â hwy ar 01792 581713.<br><br>**8. Yr Ŵyl AG (Gavin Craigen)**<br>Tynnwyd sylw'r aelodau at Ŵyl AG genedlaethol y Cyngor AG, a fyddai'n cael ei chynnal drwy gydol mis Mawrth 2011. Byddai'r Ŵyl yn ddathliad o gyfraniad AG at addysg yng Nghymru a Lloegr, drwy dynnu sylw arbennig at yr holl waith cadarnhaol a oedd yn cael ei wneud mewn AG drwy amryfal ddigwyddiadau a gweithgareddau. Yr oedd yr Ŵyl yn ceisio symbylu cymunedau ffydd lleol i gyfranogi, yn ogystal â darparu cyfle i athrawon AG rannu syniadau â'i gilydd.<br><br>Yr oedd gwefan yn cael ei chreu a fyddai'n cynnwys gwybodaeth / adnoddau, a byddai'n galluogi rhannu syniadau a phrofiadau ymysg yr ardaloedd yng Nghymru a Lloegr a oedd yn cymryd rhan.<br><br>Yr oedd cyflwyniad PowerPoint yn Saesneg ar gael, ac fe'i dangoswyd i'r | to her educational work with schools, which spanned twenty years. The Jewish Way of Life Exhibition began in her own Swansea synagogue. Originally her synagogue was large enough to hold around 100 pupils but their new synagogue was smaller, and for this reason an educational CD ROM had been produced which presents the activities taking place in the synagogue. In these activities the focus is placed on children learning about the Jewish way of life through play, actively and making full use of the senses. Members watched a section of the resource which involved pupils being guided through a role play of a Jewish wedding. The CD ROM also includes Jewish festivals, all things which happen in synagogues, and a tour of the synagogue. Part of the resource is available on the NGfL Cymru website. The DVD version of the resource (with menus) is available from Peter Hall of Freeway Producations, who can be contacted on 01792 581713.<br><br>**8. RE Festival (Gavin Craigen)**<br>Attention of members was drawn to the RE Council's national RE Festival taking place throughout the month of March 2011. The Festival will be a celebration of RE's contribution to education in Wales and England by highlighting all the positive work done in RE through various events and activities. The Festival seeks to encourage the participation of local faith communities as well as providing an opportunity for RE teachers to share ideas with one another.<br><br>A website is being created which will contain information / resources and will enable the sharing of ideas and experiences among the participating localities in England and Wales.<br><br>An English PowerPoint presentation was available and was shown to members. |

| | |
|---|---|
| aelodau. Yr oedd hwn wrthi'n cael ei gyfieithu i'r Gymraeg, a byddai'n cael ei osod ar wefan yr Ŵyl. Derbyniodd yr aelodau hefyd fersiynau Cymraeg a Saesneg o daflen hyrwyddol yr Ŵyl. Byddai copïau ar gyfer aelodau CYSAG yn cael eu hanfon allan i GYSAG'au, a gallai'r CYSAG'au gael copïau pellach i'w hanfon allan i'r holl ysgolion yn eu Hawdurdod Lleol. Yr oedd y Cyngor AG yn dymuno gweld y dathliadau ym Mawrth 2011 yn digwydd mewn ysgolion, colegau, lleoliadau cymunedol, ac addoldai. Awgrymwyd ei bod yn bosibl y byddai ALl'au yn dymuno penodi hyrwyddwr ar gyfer y Dathliad AG, i gydlynu a chynllunio'r digwyddiad. Hefyd, gallai ALl'au osod dolen ar eu gwefannau i wefan y Dathliad AG, er mwyn symbylu rhannu gwybodaeth a syniadau. Pwysleisiwyd yr angen i ennyn diddordeb y cyfryngau lleol. Cafodd rhai enghreifftiau o dudalennau o'r wefan ddrafft eu rhannu gyda'r aelodau. O ran cynnwys cyfrwng Cymraeg, byddai'r wefan yn cynnwys adnoddau allweddol yn Gymraeg, a byddai digwyddiadau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg er mwyn iddynt fod ar gael yn helaethach.<br><br>Yr oedd wedi ei gytuno'n flaenorol y byddai cyfarfod Gwanwyn 2011 o GCYSAGauC yn lansio'r Ŵyl yn swyddogol yng Nghymru; felly, yr oedd angen cyfarfod cynharach ar ddechrau mis Mawrth. Dywedodd Denize Morris (APADGOS) fod trafodaethau archwiliadol yn cael eu cynnal, i edrych ar y ffyrdd y gallai APADGOS gynorthwyo'r Ŵyl.<br><br>Cytunwyd mai Tania ap Siôn, yn y lle cyntaf, fyddai'r person cyswllt ar gyfer cysylltiadau rhwng Cymru a Lloegr. Yr oedd angen sefydlu is-grŵp PYCAG / CCYSAGauC, a dylai'r rhai a oedd yn dymuno bod yn rhan o hyn gysylltu â Thania ap Siôn. Awgrymodd Norma Glass y dylid gwahodd Archesgob Caergaint i fod yn brif siaradwr yn y | This was in the process of being translated into Welsh and would be placed on the Festival website. Members also received Welsh and English versions of the promotional Festival leaflet. Copies for SACRE members would be sent out to SACREs and SACREs could obtain further copies to sent out to all the schools in their LA. The RE Council wanted to see the celebrations in March 2011 taking place in schools, colleges, community locations,and places of worship. It was suggested that LAs may want to identify a Celebration RE champion to coordinate and plan the event. Also, LAs could put a link on their websites to the RE Celebration website to encourage the sharing of information and ideas. The need to attract the interest of the local media was stressed. Examples of some pages from the draft website were shared with members. In terms of Welsh medium content, the website would include key resources in Welsh and Welsh medium events would be translated to English to enable them to be more widely available.<br><br>It had previously been agreed that the spring 2011 WASACRE meeting would officially launch the Festival in Wales, therefore, a earlier meeting was needed at the beginning of March. Denize Morris (DCELLS) said that exploratory discussions were taking place, looking at the ways in which DCELLS could support the Festival.<br><br>It was agreed that, initally, Tania ap Sion would be the contact for liaisons between England and Wales. A NAPfRE / WASACRE subgroup needed to be established and those who wished to be part of this should approach Tania ap Sion. Norma Glass suggested that the Archbishop of Canterbury should be approached as the keynote speaker at |

| | |
|---|---|
| lansiad.<br><br>Cytunodd yr aelodau y byddai CCYSAGauC yn cynnal cost y cyfieithu ar gyfer gwefan yr Ŵyl, a byddai £1,500 yn cael eu hanfon at y Cyngor AG i'r pwrpas hwn. | the launch.<br><br>Members agreed that WASACRE should support the cost of translation for the Festival website and £1,500 would be sent to the RE Council for this pupose. |
| **9. Gohebiaeth** Yr oedd y manylion wedi eu cynnwys yn y cofnodion a gylchredwyd o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith. | **9. Correspondence** Detailed in the circulated Executive minutes. |
| **10. Prosiect 'REsilience': Denize Morris a Gavin Craigen** Rhoddwyd cyflwyniad ynglŷn â'r prosiect 'REsilience'. Yr oedd y canolbwyntio ar godi hyder athrawon o ran mynd i'r afael â materion dadleuol yn arbennig o berthnasol i AG. Yr oedd y prosiect, a oedd wedi ei gychwyn gan y Swyddfa Gartref, yn cael ei reoli gan y Cyngor AG, ac yn canolbwyntio ar anghenion ymarferwyr AG. Yr oedd ansawdd y prosiect yn cael ei fonitro drwy Grŵp Darparu Gweithredol (GDG), Grŵp Ymgynghorol Aml-Ffydd (GYAFf), a Grŵp Ymgynghorol Cymreig (a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o GCYSAGauC, ymgynghorwyr, ac athrawon yng Nghymru). Yr oedd Cymru'n cael ei chynrychioli ar y GDG a'r GYAFf hefyd. Yr oedd y prosiect yn canolbwyntio ar hyfforddi mentoriaid i weithio gydag athrawon unigol yn eu hysgolion. I ddechrau, byddai holiadur hunanwerthuso'n cael ei gwblhau gan ysgolion i ganfod meysydd lle'r oedd hyder, a byddai mentoriaid yn dilyn hynny ymlaen drwy ymweld ag ysgolion i lunio cynllun gweithredu priodol. Elfen sylweddol o'r prosiect oedd defnyddio dogfennau 'Gateway' i godi hyder athrawon mewn meysydd cytunedig. Byddai'r broses gyfan ar gyfer ysgol unigol yn cymryd chwe wythnos, a byddai costau athrawon llanw'n cael eu talu i'r ysgol er mwyn rhyddhau'r athro/athrawes ar gyfer cyfarfodydd gyda'r mentor. Byddai mentoriaid hefyd yn gallu creu cysylltiadau rhwng ysgolion a oedd â phroblemau cyffelyb. | **10. Resilience Project: Denize Morris and Gavin Craigen** A presentation was given on the REsilience project. The focus on building teacher confidence and skills in addressing controversial issues was particularly relevant for RE. The Home Office initiated project was being managed by the RE Council and focused on the needs of RE practitioners. The quality of the project was being monitored through an Executive Delivery group, a multifaith Advisory Group and a Welsh Advisory Group (consisting of representatives from WASACRE, advisors, and teachers in Wales). Wales was also represented on the EDG and multifaith AG. The project focused on training mentors to work with individual teachers in their schools. Initally, a self-evaluation questionnaire would be completed by schools identifying areas of confidence which would be followed up by mentors visiting schools to devise an appropriate action plan. A significant part of the project was the use of Gateway documents to enhance teachers' confidence in agreed areas. The whole process for an individual school would be over a period of six weeks and supply cover would be paid to the school to release the teacher for meetings with the mentor. Mentors will also be able to link schools with similar issues. |

| | |
|---|---|
| Byddai'r peilot ar gyfer y prosiect yn cael ei gynnal yng Nghymru yn ystod tymor yr haf er mwyn rhoi'r deunyddiau ar brawf, ac yr oedd ysgolion wedi eu dethol ar gyfer y gwaith hwn. Byddai'r prosiect yn cael ei ymestyn i ysgolion eraill ar ddechrau tymor yr hydref. Byddai taflen yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer y prosiect yn helpu i gymell ysgolion i gymryd rhan.<br><br>Gavin Craigen oedd y person cyswllt a'r Mentor Arweiniol ar gyfer Cymru. Bethan James oedd y mentor cyfrwng Cymraeg ar gyfer y peilot. Byddai gwefan 'REsilience' yn hysbysebu am ragor o fentoriaid.<br><br>Yr oedd y Cyngor AG yn gobeithio ymofyn cyllid pellach ar gyfer ymestyn y prosiect y tu hwnt i 2011.<br><br>**11. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 22 Chwefror, 2010** Tynnwyd sylw at:<br>Eitem 4 — materion yn codi (gwefan). Cyflwynodd y Trysorydd, John Mitson, gostiadau i'r aelodau ynglŷn â gwefan arfaethedig CCYSAGauC. Yr oedd y rhain yn cynnwys costau creu'r wefan, a chostau blynyddol rheolaidd darparwr y wefan (Mavada) a chynhaliwr y wefan (Canolfan y Santes Fair). Gosodwyd hyn yng nghyd-destun ehangach cronfeydd wrth gefn CCYSAGauC a'i hincwm blynyddol. Dywedodd y Trysorydd wrth yr aelodau y gellid ariannu sefydlu'r wefan o gronfeydd wrth gefn CCYSAGauC, ac ariannu'r costau wedi hynny o incwm tanysgrifiadau CCYSAGauC (ni fyddai'r wefan yn defnyddio ond wythfed ran o'r incwm hwn). I gloi, dywedodd fod hyn yn fforddiadwy, ond bod angen ei gymryd i ystyriaeth wrth wario yn y dyfodol. Cydnabuwyd y byddai angen i gyllid ychwanegol fod ar gael ar gyfer lansio'r Ŵyl AG yng nghyfarfod CCYSAGauC ym Mro Morgannwg ym Mawrth 2011. Ar ôl | The pilot for the project would take place in Wales in the summer term in order to test the materials, and schools had been selected for this. The roll out to other schools would take place at the beginning of the autumn term. A Welsh and English medium flyer for the project would help encourage schools to participate.<br><br>Gavin Craigen is the Wales link for the project and Lead Mentor. Bethan James is the Welsh medium mentor for the pilot. The REsilience website will advertise for further mentors.<br><br>The RE Council is hoping to seek further funding to extend the project beyond 2011.<br><br>**11. Report from the Executive Committee held on 22 February, 2010**<br>Attention was drawn to:<br>Item 4 – matters arising (website). John Mitson (Treasurer) presented costings for the proposed WASACRE website to members which included costs for creating the website and recurrent annual costs to the website provider (Mavada) and website mantainer (St Mary's Centre). This was placed within the wider context of WASACRE's reserves and annual income. He informed members that establishing the website could be funded from WASACRE's reserves and costs thereafter from WASACRE's income from subscriptions (the website would use one eighth of this). He concluded that this was affordable, but it needed to be taken into account in future spending. It was recognised that extra funding would need to be available for the launch of the RE Festival at the WASACRE meeting in the Vale of Glamorgan in March 2011. After some positive discussion, members voted in |

| | |
|---|---|
| trafodaeth gadarnhaol, pleidleisiodd yr aelodau o blaid dyrannu'r arian i'r wefan.<br>Eitem 5 — y cyflwyniad gan Jo Glenn, Pennaeth Uned Strategaeth Cydlyniant Cymunedol LlCC. Bu'r cyflwyniad yn ddefnyddiol, a chaniataodd i faterion a godwyd yng nghyfarfodydd CCYSAGauC ym mis Tachwedd gael eu trafod mewn mwy o ddyfnder. Byddai'r ddeialog yn parhau. Croesawyd y dyraniad o sedd ar gyfer cynrychiolydd o GCYSAGauC ar Fwrdd Addysg Cydlyniant LlCC. Byddai Carys Thomas yn mynd i'r cyfarfod nesaf ym mis Mawrth, ac yna byddai mater cynrychiolaeth yn cael ei drafod drachefn. Diolchodd y Cadeirydd i Carys Thomas am hyn.<br>Tynnwyd sylw hefyd at eitem 6, ac at ddatblygiadau a oedd wedi codi o'r cyfarfod gyda'r Gweinidog yn Rhagfyr 2009; ac at eitem 7, a oedd yn ymwneud â'r prosiect 'REsilience'. Gyda golwg ar yr ail o'r rhain, yr oedd yn bosibl y byddai'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd ac APADGOS yn ymestyn 'REsilience' i'r sector Addysg Bellach.<br><br>Byddai Eldon Philips (CYSAG Abertawe) yn cymryd lle David Williams (CYSAG Abertawe) ar y Pwyllgor Gwaith, tan haf 2011.<br><br>**12. Arddangos adnoddau AG** Tynnodd Rheinallt Thomas sylw at adnoddau MAGC, gyda golwg arbennig ar 'RE Ideas', a oedd wedi ei ysgrifennu gan athrawon yng Nghymru; at y cyllid ar gyfer y cyfieithiad Cymraeg o'r gwasanaethau crefyddol ar gyfer ysgolion uwchradd ar wefan SPCK (yr oedd taflen a oedd yn rhestru'r gwasanaethau hyn wedi ei chylchredeg i ysgolion uwchradd yng Nghymru); cyhoeddiad adnoddau 'RE Today' (a oedd wedi eu nodi gan BYCAG) yng Nghymru; cyhoeddiad *Amazing Lives* yn Lloegr. Pwysleisiwyd pwysigrwydd aelodaeth o LA, ac amlinellwyd y buddion priodol i ysgolion.<br><br>**13.** U.F.A. Cododd Eurfryn Davies fater | favour of allocating the money to the website.<br>Item 5 - the presentation by Jo Glenn, Head of the WAG Community Cohesion Strategy Unit. The presentation was useful and allowed issues raised in the November WASACRE meeting to be explored in more depth. Dialogue would continue. The allocation of a place for a WASACRE representative on the WAG Education Cohesion Board was welcomed. Carys Thomas would attend the next meeting in March and then the issue of representation would be revisited. The Chair thanked Carys Thomas for this.<br><br>Attention was also drawn to item 6 and developments arising from the meeting with the Minister in December 2009 and item 7 regarding the REsilience project. With reference to the latter, DCSF and DCELLS may extend REsilience to the FE sector.<br><br>Eldon Philips (Swansea SACRE) will take the place of David Williams (Swansea SACRE) on the Executive Committee, until summer 2011.<br><br>**12. Showcase of RE resources**<br>Rheinallt drew attention to REMW resources with particular reference to RE Ideas which is written by teachers in Wales; the funding for the Welsh translation of the secondary assemblies on SPCK's assemblies website (a leaflet listing these assemblies has been circulated to secondary schools in Wales); the Welsh publications of RE Today resources (which have been identified by NAPfRE); the English publication of *Amazing Lives*. The importance of LA membership was stressed and the respective benefits to schools outlined.<br><br>**13. A.O.B.** Eurfryn Davies raised a car |

| | |
|---|---|
| parcio, ac argymhellodd y dylid cylchredeg cyngor ynglŷn â pharcio ar gyfer cyfarfodydd gyda'r papurau.<br><br>**Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau, 24 Mehefin 2010 ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam.** | parking issue and recommended that advice regarding parking for the meetings should be circulated with papers.<br><br>**Date of next meeting: Thursday, 24 June 2010 at Glyndŵr University, Wrexham.** |

| **Cyngor Sir Ddinbych**<br>**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol**<br>**(CYSAG)** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 7 Mehefin 2010 |
| Agenda Item: | **5b** | CYSAGC - 'CYSAGau a'r Gymuned Leol' - Arolwg |
| *<u>Y Cefndir i'r Adroddiad:</u>*<br>Arolwg sy'n dwyn y teitl 'CYSAGau a'r Gymuned Leol' a anfonwyd i'r holl CYSAGau. | | |
| *<u>Diben yr Adroddiad:</u>*<br><br>Er mwyn i'r aelodau fedru cyfrannu i adroddiad CYSAGC sydd yn mapio'r berthynas rhwng CYSAGau a'u cymunedau lleol a hefyd yn enghreifftio sut y mae'r CYSAGau yn cyfrannu i thema draws-dorri LlCC sy'n pwysleisio cydlyniad cymdeithasol yn eu cyd-destunau lleol. | | |
| *<u>Argymhellion:</u>*<br><br>▪ I dderbyn a thrafod yr arolwg<br>▪ I'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu AG gwblhau a dychwelyd yr adroddiad | | |

# CYSAGau a'r Gymuned Leol

# Arolwg o GYSAGau

Mae'r arolwg hwn yn cael ei anfon at holl GYSAGau Cymru gan GCYSAGauC. Nod yr arolwg yw cael at wybodaeth ynglŷn â chynrychiolaeth CYSAG'au ar Bwyllgor A (enwadau Cristnogol, a chrefyddau eraill a'u henwadau), cynrychiolaeth gyfetholedig, cydberthynas CYSAGau ag enwadau Cristnogol ac â chrefyddau eraill a'u henwadau, a chysylltiadau CYSAGau â sefydliadau rhyng-ffydd lleol ag â mentrau rhyng-ffydd lleol eraill.

Ar sail eich ymatebion, bydd CCYSAGauC yn cynhyrchu adroddiad sy'n mapio'r gydberthynas rhwng CYSAGau a'u cymunedau lleol, gyda'r nod o goladu a rhannu gwybodaeth, profiadau, ac arferion.

A fuasech cystal â dychwelyd yr arolwg, ar ôl ei gwblhau, i Tania ap Siôn, Ysgrifennydd CCYSAGauC, drwy e-bost neu'r post erbyn **20 Gorffennaf 2010**:

E-bost: tania.ap.sion@st-deiniols.org

Cyfeiriad:
Tania ap Siôn
Canolfan y Santes Fair
Llyfrgell Deiniol Sant
Penarlâg
Sir y Fflint
CH5 3DF

## Beth yw enw eich CYSAG:

**ADRAN A**

Mae'r cwestiynau yn ADRAN A yn ymwneud â chynrychiolwyr CYSAGau ar Bwyllgor A (h.y. cynrychiolwyr enwadau Cristnogol, a chrefyddau eraill a'u henwadau, sy'n adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol eich ardal).

1. Pa enwadau Cristnogol, a chrefyddau eraill a'u henwadau, a gynrychiolir ar eich CYSAG? (cynhwyswch nifer y lleoedd sydd wedi eu dyrannu i bob grŵp)

2. A yw eich CYSAG wedi cael unrhyw broblemau o ran sicrhau cynrychiolaeth briodol i enwadau Cristnogol ac i grefyddau eraill a'u henwadau?

   YDYW / NAC YDYW

   Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

3. A yw eich CYSAG yn fodlon fod ei aelodaeth yn adlewyrchu'n briodol yr enwadau Cristnogol perthnasol, a'r crefyddau eraill a'u henwadau, a geir yn eich ardal chi?

   YDYW / NAC YDYW

   Os NAD YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

**ADRAN B**

Mae'r cwestiynau yn ADRAN B yn ymwneud â chynrychiolwyr cyfetholedig CYSAGau.

1. A oes gennych unrhyw gynrychiolwyr cyfetholedig ar eich CYSAG?

   OES / NAC OES

   Os OES, rhestrwch y cyrff/sefydliadau y maent yn eu cynrychioli os gwelwch yn dda.

2. A yw eich CYSAG yn fodlon fod ei gynrychiolaeth gyfetholedig yn addas ar gyfer CYSAG yn eich ardal chi?

   YDYW / NAC YDYW

   Os NAD YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

**ADRAN C**

Mae'r cwestiynau yn ADRAN C yn ymwneud â chydberthynas CYSAGau ag enwadau Cristnogol, ac â chrefyddau eraill a'u henwadau, yn eich ardal.

1. Rhestrwch y cysylltiadau y mae gan eich CYSAG ag enwadau Cristnogol, ac â chrefyddau eraill a'u henwadau, yn eich ardal.

2. Rhestrwch unrhyw gysylltiadau y mae gan eich CYSAG ag enwadau Cristnogol, ac â chrefyddau eraill a'u henwadau, y tu allan i'ch ardal.

3. A yw eich CYSAG wedi cymryd rhan mewn unrhyw brosiectau neu weithgareddau sydd wedi cynnwys enwadau Cristnogol, a chrefyddau eraill a'u henwadau, yn eich ardal?

   YDYW / NAC YDYW

   Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

4. A yw eich CYSAG wedi cymryd rhan mewn unrhyw fentrau eraill sy'n hybu agweddau perthnasol ar gydlyniant cymunedol yn eich ardal?

   YDYW / NAC YDYW

   Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

5. A oes unrhyw beth pellach y gallai eich CYSAG ei wneud i hybu:

   (a) cydberthynas berthnasol a chynhyrchiol ag enwadau Cristnogol, ac â chrefyddau eraill a'u henwadau, yn eich ardal?

      OES / NAC OES

      Os OES, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

   (b) agweddau perthnasol ar gydlyniant cymunedol yn eich ardal.

      OES / NAC OES

      Os OES, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

**ADRAN D**

Mae'r cwestiynau yn ADRAN D yn ymwneud â chydberthynas eich CYSAG â sefydliadau rhyng-ffydd lleol, a'i gysylltiad â mentrau neu brosiectau rhyng-ffydd lleol eraill.

1. A ydych yn ymwybodol o fforwm crefyddau lleol neu gyngor rhyng-ffydd sy'n dod ag aelodau o'r crefyddau pwysicaf yn eich ardal at ei gilydd? (hynny yw, y ‘prif’ gorff rhyng-ffydd lleol — pan fo un yn bodoli — sydd fel rheol yn rhyw fath o gyngor neu fforwm).

   YDYM / NAC YDYM

   Os YDYCH, beth yw ei enw/au?

2. A oes unrhyw aelodau o'ch CYSAG yn cymryd rhan yn y grŵp hwn/grwpiau hyn?

   OES / NAC OES

   Os OES, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

3. A yw eich CYSAG yn cael ei gynrychioli ar y grŵp hwn/grwpiau hyn?

   YDYW / NAC YDYW

   Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

4. A yw eich CYSAG wedi gweithio gydag un neu ragor o grwpiau rhyng-ffydd lleol ar brosiectau penodol?

   YDYW / NAC YDYW

   Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

5. A yw eich CYSAG wedi gweithio gydag unrhyw fentrau rhyng-ffydd lleol eraill ar brosiectau penodol?

   YDYW / NAC YDYW

   Os YDYW, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

6. A oes gennych unrhyw sylwadau ar brofiadau eich CYSAG yn y maes hwn — er enghraifft, profiad o weithio ar y cyd â'r corff rhyng-ffydd lleol (neu â mentrau rhyng-ffydd lleol eraill) — neu, yn yr un modd, o **fethu** â gweithio ar y cyd neu sefydlu dull cysylltu boddhaol a chyd-ymwybyddiaeth?

7. A oes unrhyw beth pellach y gallai eich CYSAG ei wneud, ynglŷn â'i gydberthynas â chyrff rhyng-ffydd eraill, a fyddai'n cynyddu dealltwriaeth rhyng-ffydd a chydlyniant cymunedol?

   OES / NAC OES

   Os OES, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr ydych yn dymuno'u gwneud?

DIOLCH AM GYMRYD RHAN YN YR AROLWG HWN.

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 7 Mehefin 2010 |
| Eitem Agenda | **6** | Gŵyl Addysg Grefyddol |

*Cefndir i'r Adroddiad*

Gŵyl Addysg Grefyddol Mawrth 2011

*Pwrpas yr adroddiad:*

Rhoi gwybodaeth i aelodau ynghylch Gŵyl Addysg Grefyddol a fydd yn cael ei chynnal ac a fydd yn fis cyfan o hyrwyddo Addysg Grefyddol mewn ysgolion.

*Argymhellion*

- Derbyn a thrafod yr wybodaeth
- Rhannu taflenni i bob ysgol

# DathluAG

*... archwilio gwerthoedd a chredoau ar gyfer yfory*

## Mis o ddathlu addysg grefyddol yng Nghymru a Lloegr ym mis Mawrth 2011

Nod mis *Dathlu Addysg Grefyddol* yw:

- creu llwyfan i arddangos addysg grefyddol hwyliog a pherthnasol gyda disgyblion o bob gallu ac oedran
- dathlu addysg grefyddol a'i gyfraniad at addysg a datblygiad personol pob disgybl a'r gymdeithas yn gyffredinol
- cryfhau cysylltiadau rhwng addysg grefyddol a chymunedau ffydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- cysylltu gweithwyr proffesiynol ym maes addysg grefyddol ledled y wlad a'u hannog i rannu arfer da er mwyn meithrin cydberthnasau parhaus rhwng sectorau, athrawon a'r gymuned addysg grefyddol ehangach
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfraniad nodedig a phositif addysg grefyddol at y gymdeithas a chydlyniant cymdeithasol
- datblygu a chynnal presenoldeb cryf ar gyfer addysg grefyddol yn y gymuned ar-lein a chyfryngau'r newyddion
- hyrwyddo enghreifftiau llawn dychymyg o archwilio cwestiynau yng nghyswllt ystyr, pwrpas a chyfrifoldeb moesol
- annog creadigedd a rhagoriaeth mewn addysg grefyddol, ac
- amlygu'r gwaith ardderchog y mae athrawon, disgyblion a chymunedau yn ei wneud eisoes yng Nghymru a Lloegr trwy roi sylw penodol i'r pwnc am fis cyfan

**www.celebratingre.org**

## Edrychwch ar **www.celebratingre.org** i:

- gofrestru'ch diddordeb a derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a datblygiadau yn rhad ac am ddim
- rhannu gwybodaeth am y digwyddiadau yr ydych yn eu cynllunio yn eich ysgol a'ch cymuned
- darganfod sut i gymryd rhan mewn cystadlaethau am gyfle i ennill amrywiaeth anhygoel o wobrau
- cael eich ysbrydoli gan y syniadau a'r prosiectau sy'n cael eu datblygu gan athrawon ledled Cymru a Lloegr ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a disgyblion galluog a thalentog
- gweld pa ddigwyddiadau sy'n cael eu cynllunio gan ysgolion, cymunedau ffydd, CYSAGau, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a grwpiau eraill sydd â diddordeb
- dod o hyd i adnoddau hawdd eu defnyddio ar gyfer eich ysgol, a
- hyrwyddo safonau addysgu da yn y pwnc yn eich awdurdod lleol, esgobaeth neu ranbarth

**Y Cyngor Addysg Grefyddol**
*ar gyfer Cymru a Lloegr*



**www.celebratingre.org**

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol**
**(CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 7 Mehefin 2010 |
| Eitem Agenda | **7** | REsilience |

*Cefndir i'r Adroddiad*

Prosiect REsilience

*Pwrpas yr adroddiad:*

Derbyn gwybodaeth ynghylch y Prosiect *REsilience* sy'n cael ei reoli gan Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr.

*Argymhellion*

- Rhoi gwybod i aelodau ynghylch y Prosiect *Resilience*
- Codi ymwybyddiaeth ynghylch y prosiect mewn ysgolion uwchradd

## Beth?

Project i athrawon Addysg Grefyddol mewn ysgolion uwchradd gwladol ydy *AtGyfnerthu*. Ei bwrpas ydy helpu i adeiladu hunanhyder wrth drafod materion dadleuol, yn arbennig pan ddefnyddir y materion hyn weithiau i gyfiawnhau eithafiaeth dreisgar. Y Cyngor Addysg Grefyddol ar gyfer Cymru a Lloegr ydy rheolwyr *AtGyfnerthu* mewn cytundeb â'r adran ar gyfer plant, ysgolion a theuluoedd (DCSF) yn Lloegr ac APADGOS yng Nghymru.

## Pam?

Mae eithafiaeth grefyddol a'r rhai a sylfaenwyd ar gred yn codi materion dadleuol a sensitif iawn, ac yn bwnc o ddiddordeb i'r cyhoedd. Mae'r mwyafrif o bobl ifanc yn gwybod fod rhai eithafwyr wedi defnyddio dadleuon a sylfaenwyd ar gred i gyfiawnhau trais yn erbyn pobl maent yn anghytuno â nhw. Rydym yn llai sicr beth ydy maint gwybodaeth pobl ifanc am yr hyn sy'n ysgogi'r fath ymosodiadau, neu farn credinwyr y brif ffrwd.

Agwedd bwysig ar gydlyniant cymunedol ydy anwybodaeth a chamsyniadau sy'n creu amheuaeth a chodi muriau rhwng cymunedau a'i gilydd. Mae pobl ifanc yn archwilio ffydd, credoau a gwerthoedd ein cymunedau mewn Addysg Grefyddol; ond mae codi cwestiynau neu ymateb i eithafiaeth yn her hyd yn oed i'r athrawon mwyaf profiadol. Dyma pam mae angen *AtGyfnerthu*.

## I bwy?

Darparwyd *AtGyfnerthu* ar gyfer athrawon Addysg Grefyddol (gyda chymwysterau ffurfiol mewn Addysg Grefyddol neu hebddynt) sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd gwladol yng Nghymru a Lloegr.

## Sut?

Mae'r rhesymau dros ddiffyg hunanhyder i drafod materion dadleuol mewn gwersi Addysg Grefyddol'n amrywio o athro i athro a'i gilydd ac amgylchiadau'n amrywio o ysgol i ysgol. Bydd *AtGyfnerthu*'n gweithio gydag ysgolion unigol i'w helpu i ddod o hyd i'r anghenion a chynllunio i gwrdd â hwy. Bydd angen mabwysiadu dulliau arbennig o addysgu a dysgu i ymdopi â'r materion sy'n codi o eithafiaeth grefyddol neu eithafiaeth a sylfaenwyd ar fathau eraill o gredoau. Trwy ddefnyddio sgiliau meddwl a dulliau sy'n hybu cydweithredu, bydd myfyrwyr yn dysgu adnabod persbectifau ehangach a rhoi ystyriaeth iddynt. Amcan *AtGyfnerthu* ydy helpu athrawon i ysgogi dadl, dialog a datblygu parch a dealltwriaeth.

Darperir hyfforddiant ar gyfer *AtGyfnerthu* trwy gyfrwng:
- mentor i gefnogi pob ysgol trwy'r broses;
- catalog o adnoddau perthnasol gyda dogfennau "mynedfa" i roi arolwg byr o fater dadleuol ac "arwyddbyst" i "bwyntio" at adnoddau dibynadwy ar gyfer athrawon i ymchwilio ymhellach. Gan fod anghenion pob ysgol yn unigryw, bydd mentoriaid yn cydweithio gydag athrawon i greu pecynnau atodol a fydd yn cyfateb yn union iddynt.

## Pa bryd?

Ar ôl cyfnod peilot yn ystod hanner cyntaf 2010, bydd *AtGyfnerthu* ar gael i ysgolion rhwng Medi 2010 a Mawrth 2011. Bydd mentoriaid yn helpu ysgolion unigol ac athrawon dros gyfnod o chwech wythnos trwy gyfrwng cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb, cyswllt ebost neu ffôn, yn ôl anghenion pob ysgol.

## Beth wedyn?

Proses ydy adeiladu hunanhyder; nid digwyddiad mohono. Bydd *AtGyfnerthu*'n creu cyswllt rhwng athrawon a'u cydweithwyr (yn unigolion a grwpiau) sy'n rhannu'r un diddordebau, ac yn adeiladu rhwydweithiau anffurfiol a all oroesi'r project hwn. Bydd y Cyngor Addysg Grefyddol yn chwilio am nawdd ariannol i ymestyn y rhaglen ymhellach na 31 Mawrth 2011, ac nid yw'r DCSF wedi rhoi heibio'r posibilrwydd o ymestyn ei gytundeb.

# AtGyfnerthu

## Adeiladu hunanhyder i ymdrin â materion dadleuol mewn Addysg Grefyddol

Dimensiwn newydd i gydlyniant cymunedol: cyfle cyffrous i athrawon Addysg Grefyddol

**www.RE-silience.org.uk**

Trefnwyd gan Gyngor Addysg Grefyddol ar gyfer Cymru a Lloegr Hawlfraint© 2010

Religious Education Council of England and Wales

**Y Cyngor Addysg Grefyddol** ar gyfer Cymru a Lloegr

Noddwyd gan:
**yr adran ar gyfer** plant, ysgolion a theuluoedd (DCSF)

department for children, schools and families

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

APADGOS / DCELLS